## "Beth yw ystyr tâl yn ôl perfformiad?"

Ers mis Medi 2014, mae penderfyniadau cyflog athrawon yn seiliedig ar berfformiad. Mae'r drefn Rheoli Perfformiad yn ran allweddol o'r broses o benderfynu ar gyflog unigolion ac mae disgwyl i bob ysgol ddiffinio beth fydd yn caniatáu i unigolyn gael cynnydd cyflog yn seiliedig ar berfformiad.

Mae'n ofynnol i'r Adroddiad Rheoli Perfformiad gynnwys argymhelliad ynghylch datblygiad cyflog a '*rhaid i'r penderfyniad fod yn gysylltiedig â pherfformiad yr athro, fel yr aseswyd drwy drefniadau gwerthuso'r ysgol neu'r awdurdod'* (Paragraff 19.2a) Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2014 a Chanllawiau ar Gyflog ac Amodau athrawon Ysgol.

Rhaid i argymhelliad ar gyflog gael ei wneud yn ysgrifenedig fel rhan o adroddiad gwerthuso'r athro. Y Panel Cyflog a'r Corff Llywodraethol fydd yn penderfynu'n derfynol ar hyn ar sail argymhelliad y Pennaeth.

Dylai pob ysgol fod wedi mabwysiadu Polisi Cyflog sy'n egluro'r cyswllt rhwng Rheoli Perfformiad a datblygiad cyflog. Cred UCAC ei fod yn gwbl resymol i selio barn ar gyfer Tâl yn ôl Perfformiad ar ganlyniadau'r broses Rheoli Perfformiad ac amcanion yr unigolyn yn unig.

Taflen wybodaeth UCAC: Amodau Gwaith Athrawon

Taflen wybodaeth UCAC: Rheoli Perfformiad

Polisi Cyflog Enghreifftiol UCAC